# Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017

**2017 dccc 1**

## RHAN 8

DEHONGLI A DARPARIAETHAU TERFYNOL

*Dehongli*

### 75 Diffiniadau eraill

Yn y Ddeddf hon—

mae i "Cymru" yr ystyr a roddir i "Wales" gan adran 158(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32);

ystyr "DCRhT" ("*TCMA*") yw Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (dccc 6);

ystyr "deddfiad" ("*enactment*") yw deddfiad (pa bryd bynnag y'i deddfir neu y'i gwneir) sy'n, neu sydd wedi ei gynnwys mewn—

(a) Deddf Seneddol,

(b) Deddf neu Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru, neu

(c) is-ddeddfwriaeth (o fewn ystyr Deddf Dehongli 1978 (p. 30)) a wneir o dan—

(i) Deddf Seneddol, neu

(ii) Deddf neu Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "landlord cymdeithasol cofrestredig" ("*registered social landlord*") yw corff a gofrestrir fel landlord cymdeithasol mewn cofrestr a gynhelir o dan adran 1(1) o Ddeddf Tai 1996 (p. 52);

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 25/05/2017.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Adran 75. (See end of Document for details)*

ystyr "mynegai prisiau defnyddwyr" ("*consumer prices index*") yw'r mynegai prisiau defnyddwyr ar gyfer pob eitem a gyhoeddir gan y Bwrdd Ystadegau;

ystyr "mynegai prisiau manwerthu" ("*retail prices index*") yw Mynegai Cyffredinol Prisiau Manwerthu'r Deyrnas Unedig a gyhoeddir gan y Bwrdd Ystadegau o dan adran 21 o Ddeddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 (p. 18);

ystyr "plentyn" ("*child*") yw person o dan 18 oed;

mae "tir" ("*land*") yn cynnwys—

(a) adeiladau a strwythurau;

(b) tir a orchuddir â dŵr.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 75 mewn grym ar 25.5.2017, gweler **a. 81(1)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 25/05/2017.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Adran 75.